



---

**Camau Gweithredu**

---

**Fforwm Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru**

---

<b>Dyddiad:</b>	23 Ebrill 2020
<b>Amser:</b>	10:00 – 12:00
<b>Lleoliad:</b>	Microsoft Teams

---

**Mynychwyr**

Amanda Philips, Swyddog, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Ann Elias, Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru - Trafnidiaeth Strategol, “Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru” Cyngor Ceredigion, Ben George, Swyddog, Cyngor Abertawe, Ceri Rees, Swyddog, Cyngor Sir Benfro, Ceri Stephens, I’w gadarnhau, Siambr Fasnach De Cymru, Chris Peake, Rheolwr Porthladd, Irish Ferries, David Beer Uwch Reolwr Cymru, Transport Focus, Dr Jonathan Burnes Cyfarwyddwr y Rhaglen, Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, Dr. Rhian Hayward MBE Prif Swyddog Gweithredol, Campws Arloesi a Menter Aberystwyth Cyf, Prifysgol Aberystwyth, Liz Williams, Swyddog Prosiectau a Rheolwr Swyddfa, Twristiaeth Sir Benfro, Owen Williams, Rheolwr Masnachol, First Cymru Buses Ltd, Peter Austin Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, Samara Hicks, I’w gadarnhau, Cyngor Sir Gaerfyrddin, Sharon Adams, Cyfarwyddwr Aelodaeth, Siambr Fasnach De Cymru, Simon Charles, Swyddog, Cyngor Sir Gaerfyrddin, Val Hawkins, Prif Weithredwr, Twristiaeth Canolbarth Cymru, Vincent Goodwin, Swyddog Teithio, Cyngor Powys & Zoe Antrobus, Rheolwr Gyfarwyddwr, 4theregion

**Mynychwyr TfW**

Andrew Gainsbury, Rheolwr Stoc Rholio, Ben Clifford, Rheolwr Cludiant Ffyrdd, David Clark, Cynlluniwr Trên, Geraint Morgan, Rheolwr Rheilffyrdd Cymunedol, Gethin Jones, Rheolwr Cymorth Busnes, Hugh Evans Pennaeth Rheilffyrdd Cymunedol, Katie Powis (Cadeirydd), Rheolwr Rhanddeiliaid, Lowri Joyce Rheolwr Rhanddeiliaid, Nichole Sarra, Rheolwr Rhanddeiliaid & Tom Parker, Dadansoddwr Perfformiad Rheilffyrdd

**Derbyniwyd ymddiheuriadau gan**

Julian Atkins, Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Bannau Brycheiniog, Carl Milne, Stena Line (Abergwaun), Michelle Roles, Rheolwr Rhanddeiliaid, Transport Focus & Bruce Roberts, Ysgrifennydd, Clwb Busnes Bae Abertawe

<b>Eitem rhif</b>	<b>Cofnodion</b>	<b>Camau gweithredu</b>
1.	<b>Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau – Katie Powis (KP)</b> Trafnidiaeth Cymru  Cyflwynwyd yr holl fynychwyr.	

	<p>Esboniodd KP y canllawiau ymarferol ar gyfer y cyfarfod ynghyd â'r cyfle i godi cwestiynau drwyddi draw trwy'r swyddogaeth sgwrsio neu ar ddiwedd pob cyflwyniad. Hefyd rhoddodd KP amlinelliad byr o bwrpas y Fforwm.</p>	
2.	<p><b>Pwrpas a Chylch Gwaith Pensaernïaeth Gynghorol Trafnidiaeth Cymru - Gethin Jones (GJ) Trafnidiaeth Cymru</b></p> <p>Rhoddodd GJ drosolwg o ddatblygiad a sefydlu Pensaernïaeth Gynghorol TC, ynghyd â chylch gwaith a phwrpas y Fforymau Rhanbarthol a'u lleoliad yn y Bensaernïaeth.</p> <p>Ni chodwyd unrhyw gwestiynau ar yr eitem hon.</p>	
3.	<p><b>Amserlen Rhagfyr 2020 - David Clark (DC) Trafnidiaeth Cymru</b></p> <p>Cyflwynodd DC newidiadau amserlen ac egwyddorion cynllunio trenau Rhagfyr 2020.</p> <p>Holodd Ben George (BG) am y rhaglen o gwblhau'r wal gynnal yng ngorsaf drenau Abertawe. Cytunodd KP i ymchwilio i'r rhaglen a dilyniant y gwaith ac adrodd yn ôl.</p> <p>Cododd David Beer (DB) gwestiwn ynghylch darparu cerbydau a'r amserlenni ynghylch cael unedau yn eu lle, eu hadnewyddu ac unrhyw gynlluniau wrth gefn ar gyfer yr amserlenni hyn.</p> <p>Cadarnhaodd Andrew Gainsbury (AG) fod rhai risgiau parhaus ar gyfer y rhaglen fflyd er bod y cyflenwyr adnewyddu cerbydau yn dal i weithio trwy Covid-19 ac yn gwneud yn dda i aros ar y rhaglen. Mae cynlluniau wrth gefn yn cael eu llunio rhag ofn y bydd oedi sylweddol. Mwy i ddod ar Stoc Rholio yn yr eitem nesaf ar yr agenda.</p> <p>Gofynnodd DB pan fydd y gwaith yn digwydd yng Ngorsafoddedd Abertawe y dylid ystyried arwyddion a chyfathrebiadau.</p> <p>Dywedodd DC y byddai unrhyw darfu yn Abertawe yn fach iawn ac y byddai'r CIS yn arddangos y wybodaeth fwyaf diweddar a ddarperir gan Network Rail (NR) i gynorthwyo teithwyr.</p>	<p><b>KP i gasglu gwybodaeth gan NR ar y gwaith arfaethedig i wal gynnal Gorsaf Abertawe.</b></p>
4.	<p><b>Diweddariad ar y Cerbydau – Andrew Gainsbury (AG) Trafnidiaeth Cymru</b></p> <p>Cyflwynodd AG ddiweddariad ar raglen adnewyddu gyfredol fflyd TC ynghyd â'r cerbydau newydd ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Holodd DB am fewnbwn teithwyr i'r dyluniadau ynghyd â nodi y byddai Transport Focus yn hapus i helpu i gynorthwyo unrhyw nodweddion mewnlol posibl.</p> <p>Dywedodd AG y byddai'r brasfodelau trên yn cynorthwyo gyda mewnbwn dylunio gan deithwyr. Roedd y rhain i fod i gyrraedd</p>	<p><b>AG i gasglu a rhannu delweddau wedi'u</b></p>

<p>o Sbaen y gwanwyn hwn ond maent yn cael eu gohirio oherwydd yr achosion Covid-19 cyfredol. Cadarnhaodd AG ein bod yn gobeithio derbyn y rhain yn awr yn yr Haf. Dywedodd AG hefyd fod y panel hygyrchedd teithwyr eisoes wedi cael cip ar y brasfodelau a'u bod yn hapus eu bod yn cydymffurfio. Mae AG yn gobeithio derbyn delweddau wedi'u cynhyrchu gan gyfrifiadur ar y cerbydau newydd yn fuan.</p> <p>Holodd Ceri Stephens (CS) a oedd cyflenwyr o Gymru yn rhan o gadwyn gyflenwi CAF.</p> <p>Cadarnhaodd AG fod CAF yn gwmni yn Sbaen felly byddai llawer o'r gadwyn gyflenwi o'r wlad honno ond mae'n credu y bydd rhai cyfleoedd lleol. Camau gweithredu i AG wirio manylion cadwyn gyflenwi Cymru gyda CAF.</p> <p>Holodd Ann Elias (AE) am y potensial i gerbydau Dosbarth 175 wedi'u hadnewyddu redeg ar Linell Calon Cymru.</p> <p>Dywedodd AG fod cerbydau dosbarth 153 yn cael eu gweithredu ar Linell Calon Cymru ar hyn o bryd ynghyd â rhai cerbydau dosbarth 150. Yn y dyfodol, bydd hyn yn newid i gerbydau dosbarth 153 wedi'u hadnewyddu gan symud y cerbydau dosbarth 150 i Linellau Craidd y Cymoedd wrth i'r Pacers gael eu tynnu o'r gwasanaeth.</p> <p>Gofynnodd AE hefyd am y gofod i fedru cludo bagiau a beiciau ychwanegol.</p> <p>Nododd AG hefyd y byddai'r cerbydau 153 wedi'u hadnewyddu yn cynnig rhywfaint o gapasiti ychwanegol ar gyfer beiciau a bagiau, gan edrych tuag at ddatrysiad tymor hir o le ychwanegol i fynd i'r afael ag amcanion teithio gweithredol.</p> <p>Cododd Vincent Goodwin (VG) y cyfle hefyd i gael lle ychwanegol i feiciau a bagiau ar gerbydau newydd ar gyfer gwasanaethau Abertawe - Manceinion.</p> <p>Dywedodd AG y byddai'r fflyd newydd yn cyflawni darpariaeth capasiti ychwanegol ynghyd â chydymffurfio'n llawn â Phersonau â Symudedd Llai (PRM).</p> <p>Holodd DB am y cyfleusterau profi cerbydau newydd yn Ystradgynlais ynghyd ag amserlenni mesur a phrofi rheilffyrdd. Nid yw AG yn gwbl ymwybodol o'r cynlluniau mwyaf diweddar ar gyfer y safle yn Ystradgynlais. Cadarnhaodd AG fod CAF yn bwriadu defnyddio trac ar gyfer profi yn agos at gyfleuster Casnewydd a byddai'r mwyafrif o brofion yn digwydd ar y brif reilffordd. Byddai hyn hefyd yn caniatáu dechrau hyfforddiant gyrwyr yn eithaf cynnar. Cadarnhaodd AG y byddai'r profion yn cychwyn yn ystod y 15-18 mis nesaf ac na allai ddychmygu y byddai trac prawf Ystradgynlais yn barod o fewn yr amserlenni hynny oherwydd cymhlethdod yr isadeiledd. Cadarnhaodd AG fod mesur yn parhau a'i fod yn rhan o gytundeb CAF. Mae cyfarfodydd amrywiol yn cael eu cynnal i nodi meysydd y mae angen eu mesur ar y rhwydwaith.</p>	<p><b>diweddarau a gynhyrchir gan gyfrifiadur o gerbydau newydd ar ôl eu derbyn.</b></p> <p><b>AG i wirio data cyflenwyr gyda CAF.</b></p> <p><b>AG i wneud ymholiadau ynghylch cynlluniau i brofi cerbydau newydd CAF</b></p>
--	--

5.

**Gwasanaeth yn Lle'r Trenau – Ben Clifford (BC)**  
Trafnidiaeth Cymru

Cyflwynodd BC ddiweddariad ar y cynllun ar gyfer darparu gwasanaethau yn lle'r trenau gyda llawer o fanylion wedi'u cyflwyno yn y dec sleidiau.

Cododd Simon Charles (SC) fanylion o sylwadau a dderbyniwyd ynghylch defnyddio bysiau mini ar gyfer gwasanaethau yn lle'r trenau ac a oes diffyg cerbydau sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA) ar gael. Holodd SC hefyd a oedd cynlluniau i ddefnyddio cerbydau manyleb uwch yn y dyfodol. Gofynnodd DB hefyd am fanylion yr amserlenni ar gyfer cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSVAR).

Esboniodd BC ddaearyddiaeth De Orllewin Cymru ynghyd â natur y rhwydwaith yn yr ardal a all achosi anhawster i weithredu cerbydau hyd llawn. Mae bysiau mini sy'n cydymffurfio â PSVAR yn llai ar gael na cherbydau sy'n cydymffurfio. Mae bysiau mini hefyd y tu allan i gwmpas deddfwriaeth PSVAR, ond defnyddir bysiau mini sy'n cydymffurfio lle bo hynny'n bosibl.

Dywedodd BC fod cydymffurfio yn heriol i'r diwydiant cyfan gan ein bod yn dibynnu ar y gweithredwyr bysiau i gael fflyd sy'n cydymffurfio â PSVAR ar gael. Nid oes ganddo linell amser benodol ynglŷn â chydymffurfiad llawn ond nododd y gall amnewidiad a gynlluniwyd ymlaen llaw gydymffurfio o fewn dwy flynedd ac adhoc 8 i 10 mlynedd. Mae trafodaethau yn digwydd ar lefel uwch gyda'r Adran Drafnidiaeth (DfT) a'r Grŵp Cyflenwi Rheilffyrdd (RDG) i gyflymu'r broses hon.

Mynegodd DB bryder am yr amserlenni hyn ac mae'n deall bod hwn yn fater i'r diwydiant. Esboniodd DB fod y diwydiant wedi cael 15 mlynedd i gael y rheoliad ar waith a dim ond yn ddiweddar y mae wedi deffro i'r mater hwn. Mae'r dyddiadau wedi'u symud ac mae'r rhanddirymiad wedi'i ymestyn i ganiatáu amser i gydymffurfio. Unwaith y bydd rhanddirymiad yn dod i ben, byddai'n drosedd cyflenwi cerbyd nad yw'n cydymffurfio. Mae GWR yn edrych ar ohirio gwaith peirianeg nes bod gwasanaeth ar waith sy'n cydymffurfio â'r gofynion. Awgrymodd DB fod hon yn risg y mae angen ei chymryd o ddifrif a chynigiodd gymorth i gefnogi cydymffurfiad â'r diwydiant bysiau.

Cadarnhaodd BC estyniad 8 mis i'r dyddiad rhanddirymiad. Mae'r tîm gweithredol yn TC yn cyfarfod yn rheolaidd ar y pwnc hwn ac yn derbyn diweddariadau rheolaidd ynghylch cydymffurfiaeth gan y tîm Gwasanaethau yn Lle'r Trenau. Yna rhennir hyn gyda Byrddau ehangach yn yr RDG o amgylch PSVAR.

Mae yna nifer cyfyngedig o gerbydau ar gael sy'n cydymffurfio â PSVAR ac mae angen gwelliannau seilwaith pwyntiau codi gorsafoedd a bysiau er mwyn cydymffurfio hefyd. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr elfennau hyn.

	<p>Ar gyfer cydymffurfiad PSVAR a gynlluniwyd ymlaen llaw gwnaethom gyflawni cyfradd gydymffurfio o 80% ym mis Mawrth 2020 o'i gymharu â chyfradd gydymffurfio o 20% ym mis Hydref 2019 felly mae gwelliannau eisoes yn cael eu gwneud.</p>	
6.	<p><b>Rheilffordd Gymunedol – Hugh Evans (HE) Trafnidiaeth Cymru</b></p> <p>Cyflwynodd HE ddiweddariad ar y rhaglen rheilffyrdd cymunedol.</p> <p>Rhannodd Ceri Rees (CR) fanylion prosiect rhanbarthol llwyddiannus MyTrain Wales dan arweiniad Sir Benfro yn targedu ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws y pedair ardal awdurdod lleol yn Ne-Orllewin Cymru. Mae'r cynllun hwn wedi'i ariannu gan GWR sy'n caniatáu i gydweithiwr CR gyflwyno nifer o negeseuon gan gynnwys diogelwch rheilffyrdd gan ddefnyddio cyfryngau amrywiol. Mae gan CR ddiddordeb clywed am y bartneriaeth rheilffyrdd cymunedol (CRP) yn y rhanbarth a'r gwaith a gynlluniwyd i dargedu unigrwydd ac iechyd meddwl ond gofynnodd a oedd cynlluniau i weithio gyda phobl ifanc mewn ysgolion.</p> <p>Cytunodd HE fod potensial i TC fod yn rhan o addysg ac y byddai'r Llysgenhadon Rheilffyrdd Cymunedol yn hwyluso potensial y cynllun ymhellach ochr yn ochr â TC, Heddlu Trafnidiaeth Prydain a Network Rail.</p>	
7.	<p><b>Eitemau Fforwm y Dyfodol / UFA</b></p> <p>Gofynnodd KP a oedd unrhyw fater arall.</p> <p>Cynigiodd CR gynorthwyo BC mewn unrhyw ddigwyddiad yn y dyfodol o ddod o hyd i gerbydau sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn yr ardal. Cytunodd KP i rannu manylion cyswllt.</p> <p>Tynnodd KP sylw at y cyfathrebu y mae TC wedi'i gael gyda byrddau iechyd yng Nghymru oherwydd pandemig Covid-19 a gwahoddodd unrhyw adborth hysbys y gallai fod gan randdeiliaid er mwyn gwella'r amserlen gweithwyr allweddol ymhellach.</p> <p>Holodd DB ynghylch y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau ar ôl covid-19 a thrafodaethau ynghylch cynyddu gwasanaethau ar ôl covid-19. Cadarnhawyd bod gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni'r datrysiad gorau posibl ar gyfer gwasanaethau yn dilyn lleihau cyfyngiadau teithio.</p> <p>Tom Parker (TP) mae'n werth nodi bod data'n cael ei goladu am nifer y teithwyr sy'n teithio. Mae archwilwyr yn cyfrif teithwyr ac mae'r data hwn yn cael ei ddefnyddio i gynllunio'r cynnydd mewn gwasanaethau. Rydym hefyd yn edrych ar sut y bydd</p>	<p><b>KP i rannu manylion cyswllt BC &amp; CR</b></p>

<p>pellter cymdeithasol yn cael ei weithredu ar drenau unwaith y bydd y broses gloi wedi cael ei llacio.</p> <p>Gofynnodd SC am fanylion yr archwiliad gorsaf a gynhaliwyd gan ARUP a'r data a gasglwyd. Gwnaed awgrymiadau ynghylch gwelliannau i fynediad a thir cyhoeddus ar gyfer gorsafoedd a'r gwaith gwella ar raddfa fawr a fydd yn digwydd yng Ngorsaf Llanelli yn 2022.</p> <p>Dywedodd LJ fod y cynllun gwella gorsafoedd ar waith i sicrhau canlyniad archwiliadau'r orsaf. Mae gweithgor aml-sefydliad yn gweithio ar y cynllun sy'n awyddus i dderbyn awgrymiadau gan randdeiliaid.</p> <p>Hoffai SC weld y manylion ar gyfer Gorsaf Llanelli gan fod prosiect adfywio a thai sylweddol yn y cyffiniau uniongyrchol ac mae'n awyddus i glymu'r ddau. Cytunodd KP i drafod gyda SC yn dilyn y cyfarfod.</p> <p>Rhannodd Zoe Antrobus (ZA) ei manylion cyswllt wrth sgwrsio ynghylch y CRP. E-bost yw [REDACTED]</p> <p>Cadarnhaodd KP y bydd e-bost dilynol yn cael ei anfon a fydd yn cynnwys rhestr mynychwyr, yn ogystal â'r recordiad a'r cofnodion. Fe wnaeth KP hefyd annog mynychwyr i gwblhau'r arolwg adborth a fydd yn cael ei gynnwys yn yr e-bost.</p> <p>Gofynnodd KP am awgrymiadau ar gyfer eitemau ar agenda'r dyfodol ac am argymhellion ar gyfer aelodau ychwanegol i'r Fforwm. Mae'r Fforymau nesaf wedi'u cynllunio ar gyfer mis Gorffennaf.</p> <p>Diolchodd KP i'r holl gyfranogwyr a dirwyn y cyfarfod i ben.</p>	<p><b>KP i gysylltu â SC ynglŷn â Gorsaf Llanelli.</b></p>
---	--